SL(5)482 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn (a'r Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) 2019) yn gwneud darpariaeth i'r canfasiad blynyddol diwygiedig fod yn gymwys i gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o offerynnau statudol a fydd yn sicrhau bod yr un newidiadau i'r canfasiad blynyddol yn cael eu cyflwyno ledled Prydain.

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn:

> "Yn ei ffurf bresennol, mae'r canfasiad blynyddol a bennir mewn deddfwriaeth yn canolbwyntio ar broses (e.e. nifer y ffurflenni canfasio sydd i'w hanfon i bob aelwyd) yn hytrach na chanlyniadau (e.e. pa mor gywir a chyflawn yw'r gofrestr). Mae'n seiliedig ar bapur i raddau helaeth, mae'n aneffeithlon ac yn hen ffasiwn, ac nid oes llawer o le i arloesi digidol."

Bwriedir bod y canfasiad diwygiedig yn llai rhagnodol ac felly'n fwy caniataol na'r sefyllfa ar hyn o bryd. Amcanion diwygio'r canfasiad yw:

- gwneud y broses yn symlach ac yn gliriach ar gyfer dinasyddion;
- rhoi mwy o ddisgresiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal canfasiad wedi'i deilwra sy'n fwy addas i'w hardal leol;
- lleihau'r baich gweinyddol ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'r baich ariannol ar drethdalwyr;
- diogelu cyflawnder a chywirdeb y cofrestri;
- cynnal diogelwch ac uniondeb y cofrestri;
- cynnwys y gallu i arloesi a gwella, gyda model y gellir ei addasu ar gyfer newid yn y dyfodol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad

Rydym yn nodi, ac yn croesawu, yr wybodaeth gynorthwyol a thrylwyr a ddarparwyd yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn, gan gynnwys y rhestr fanwl o "Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol" ym mharagraff 2.

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn dibynnu ar Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019 (y Gorchymyn adran 109). Nodwn hefyd fod y Gorchymyn adran 109 yn awr wedi cael ei wneud a'i fod wedi dod i rym ar 18 Rhagfyr 2019. Er hynny, cytunwn fod amseriad gosod y Rheoliadau hyn yn briodol (h.y. cyn bod y Gorchymyn adran 109 wedi cael ei wneud), er mwyn rhoi digon o amser craffu i'r Cynulliad.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
20 Rhagfyr 2019